Polisi Toiledau

Ysgol Parc y Tywyn

Dyddiad adolygu: Mai 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael i'r gymuned ysgol gyfan. Mae wedi'i chymeradwyo gan lywodraethwyr a dysgwyr yr ysgol, ac mae ar gael yng nghylchlythyr yr ysgol, ar y wefan ac ym mhrosbectws yr ysgol.

Nodau

- Galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled drwy gydol y dydd er mwyn hybu iechyd, lles a chyfleoedd dysgu pob dysgwr.
- Darparu cyfleusterau toiled o ansawdd da drwy'r ysgol gyfan.

Rhesymeg: Pam ein bod yn ysgrifennu'r polisi hwn?

- Mae'r ysgol yn cydnabod bod cyfleusterau toiled sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, lle mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, ac sydd ar gael iddyn nhw drwy gydol y diwrnod ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a dysgu.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn parchu ein dysgwyr ac rydyn ni am iddyn nhw allu manteisio ar ddarpariaeth dda ac arfer da.

Amcanion: Beth ydyn ni am ei gyflawni?

- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei dderbyn a'i gynnal gan y gymuned ysgol gyfan – rheolwyr yr ysgol, staff, dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, rheolwr y safle, staff glanhau a staff ategol.
- Sicrhau bod yr holl doiledau ar agor ac ar gael i ddysgwyr drwy gydol y diwrnod ysgol. Er y gall dysgwyr ddefnyddio'r cyfleusterau toiled yn ystod amserau egwyl ac amser cinio os bydd angen, rydyn ni am sicrhau gall dysgwyr eu defnyddio unrhyw bryd. Rydyn ni'n cydnabod bod anghenion toiled dysgwyr yn amrywio'n fawr ac nad ydyn nhw'n cydymffurfio ag amserlenni caeth. Ar lefel uwchradd, er mwyn lleihau'r angen i ddysgwyr adael gwersi, byddwn ni'n darparu cyfleodd rheolaidd ac aml i fynd i'r toiled (bob 45–60 munud). Rydyn ni'n cydnabod bod rhai dysgwyr ond yn teimlo'n gyfforddus yn mynd i'r toiled pan na fydd pobl eraill o amgylch a byddwn ni'n caniatáu iddyn nhw adael y dosbarth i ddefnyddio'r toiled ac wedyn ddychwelyd heb dynnu sylwadau anffafriol.
- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn addas ar gyfer yr amrywiaeth o ddefnyddwyr disgwyliedig, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau ac anghenion arbennig, gyda goleuadau, gosodiadau a ffitiadau digonol.
- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn diwallu anghenion pob dysgwr o gymunedau ethnig a chrefyddol, a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif, hyddysg a phriodol.
- Sicrhau bod y toiledau'n darparu preifatrwydd i ddefnyddwyr o ran yr hyn gellir ei weld a'i glywed, gan sicrhau bod cyflenwad wrth gefn ar gael o gloeon ar gyfer drysau'r ciwbiclau.
- Sicrhau bod bob amser gan bob ardal doiledau gyflenwad a gynhelir yn briodol o ddŵr poeth ac oer, sebon hylif, cyfleusterau sychu dwylo a phapur toiled mewn peiriannau, sydd wedi'u gosod ar uchder cyfleus.

- Sicrhau bod unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf ar gael yn un o giwbiclau'r merched (ar gyfer merched wyth oed a hˆyn) yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a bod merched yn gwybod lle gallant ddod o hyd i gynhyrchion misglwyf.
- Gweithredu a chynnal system effeithiol o lanhau, goruchwylio ac arolygu toiledau er mwyn sicrhau safon briodol o ran y ddarpariaeth a glendid drwy gydol y diwrnod ysgol.
- Gosod cyflenwadau dŵr yfed mewn lleoliadau diogel a phriodol, ac nid mewn ardaloedd toiled.
- Goruchwylio'r toiledau yn ystod amserau egwyl ac amser cinio, os bydd dysgwyr yn credu bod angen gwneud hynny. Os bydd dysgwyr yn ymgymryd â'r rôl hon, byddwn ni'n eu hyfforddi a'u goruchwylio er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol ac nad ydyn nhw'n rhwystro cyd-ddysgwyr rhag defnyddio'r toiledau pan fo angen iddyn nhw wneud hynny.
- Ceisio barn y gymuned ysgol gyfan mewn perthynas ag unrhyw bryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth doiledau a materion o ran mynediad (gan sicrhau gweithdrefn sy'n hawdd i'r dysgwyr ei defnyddio er mwyn rhoi gwybod am wendidau neu broblemau) ac ymateb o ddifrif i'r rhain a delio ag unrhyw broblemau a amlygir gan y dysgwyr yn brydlon.
- Mynd ati'n weithredol i ymgynghori â'r dysgwyr a'u cynnwys yn y gwaith o reoli'r toiledau (drwy gyngor yr ysgol neu sefydlu gweithgor).
- Annog dysgwyr i barchu'r toiledau a'i gilydd (drwy gyngor yr ysgol, mewn gwersi ABCh, yn ystod cyfnodau trafod â'r athro/athrawes dosbarth, fel rhan o'r rhaglen ACEDd) ac annog dysgwyr i sefydlu Côd Ymddygiad Dysgwyr ar gyfer toiledau ac ystafelloedd ymolchi.
- Cynnwys materion yn ymwneud â rheoli toiledau yn rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd priodol cyngor yr ysgol, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.
- Darparu ardaloedd cymdeithasol dan do er mwyn atal yr arfer o ddefnyddio toiledau at ddibenion o'r fath.
- Gweithredu a chynnal adolygiadau blynyddol o'r polisi i fonitro p'un ai yw'n cael ei ddilyn a ph'un ai yw'n parhau yn berthnasol.

Nodiadau

- Lluniwyd y ddogfen bolisi hon mewn ymgynghoriad â dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff yr ysgol, llywodraethwyr a nyrs yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn cefnogi'r nod o ddarparu mynediad agored i gyfleusterau toiled glân, preifat a diogel, sydd mewn cyflwr da, drwy gydol y diwrnod ysgol.

Siarter Toiledau Ysgol (Enghreifftiol)

Mae'r gallu i ddefnyddio toiledau derbyniol fel y bo angen yn hawl ddynol sylfaenol ac mae'n angenrheidiol o ran iechyd a lles.

Dylai pob ysgol ddarparu:

1. Mynediad di-rwystr i doiledau, pan fo angen a lle bynnag y bo angen.
2. Nifer ddigonol o gyfleusterau ar gyfer merched a bechgyn, sy'n sicrhau digon o breifatrwydd.

3. Toiledau penodedig i bobl o'r ddwy ryw, neu giwbiclau toiled i ferched a bechgyn, gyda'r offer priodol ar gyfer defnyddwyr ag anghenion arbennig.
4. Cyfleusterau toiled ac ystafell ymolchi sydd wedi'u cynllunio'n briodol, sy'n addas ar gyfer yr amrywiaeth o ddefnyddwyr disgwyliedig, gyda goleuadau, dulliau awyru, gosodiadau a ffitiadau digonol.
5. Dˆwr poeth, o dap cymysgu yn ddelfrydol, gyda darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau sebon hylif a sychu dwylo.
6. Peiriannau papur toiled wedi'u gosod ar uchder cyfleus, a gaiff eu hail-lenwi fel y bo angen yn ystod yr oriau y defnyddir y toiledau fel arfer.
7. Unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf ym mhob un o giwbiclau'r merched (ar gyfer merched o'r oedran priodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd), sy'n cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.
8. Gweithdrefn effeithiol ar gyfer goruchwylio toiledau i sicrhau safon briodol o ddarpariaeth a gwaith rheoli yn ystod yr oriau y defnyddir y toiledau fel arfer.
9. Gweithdrefn effeithiol ar gyfer glanhau/archwilio toiledau i sicrhau safonau digonol o ran hylendid, ymddygiad a glendid, yn ystod yr oriau y defnyddir y toiledau fel arfer.
10. Polisi rheoli toiledau ysgol cyhoeddedig wedi'i gymeradwyo gan lywodraethwyr a dysgwyr yr ysgol, a gaiff ei gyfleu i'r holl ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff.
11. Gweithdrefn sylwadau/cwynion sy'n briodol i blant, gall dysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff ei defnyddio i fynegi pryderon neu gwynion mewn perthynas â thoiledau i'r pennaeth a/neu lywodraethwyr yr ysgol.

© Hawlfraint Bog Standard – Better toilets for pupils